YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

GORPHENAF, 1871.

CREFYDD NATUR A CHREFYDD DATGUDDIAD.

SONIR llawer am Grefydd Natur a Chrefydd Datguddiad, a dywedir gan rai fod y blaenaf yn fwy sicr na'r olaf, oblegid, meddant, os yw Datguddiad yn Ddatguddiad gellir dysgwyl ei fod yn gysson ag ef ei hun, ei dystiolaeth mor syml, diddaufeddwl, a dealladwy, fel na byddai le i ddynion i anghytuno; ond yn lle hyny dywedir fod gan Ddatguddiad y Beibl amryw leisiau a thafodau, a'r rhai hyny yn cyhoeddi cyfundraethau anghyfath, a dirif braidd, tra mae natur yr un a digyfnewid. Ar yr olwg gyntaf mae'r *argument* yma yn ymddangos yn dra rhesymol, oblegid os y Tad Nefol sydd yn siarad â'i blant trwy Ddatguddiad yn yr Ysgrythyrau, yn eu dysgu pa bethau i'w credu a pha bethau i'w gwneuthur, pa fodd, os felly, mae'r plant yn amrywio cymmaint oddiwrth eu gilydd yn eu credoau a'u cyflawniadau? Ond wedi'r cyfan mae twyll yn yr ymresymiad yma, oblegid nid yr *un* yw crefydd dysgyblion natur ychwaith; maent hwy, er eu bod yn darllen llyfr anffaeledig, yn amrywio cymmaint oddiwrth eu gilydd ag y mae y rhai a gredant yn Natguddiad yr Ysgrythyrau, ac y mae anghyssonderau y naill blaid yn llawn mor wrthun ag eiddo y llall. Os yr un a digamsyniol yw tystiolaeth natur y'mhob man, ac wrth bob dyn, paham y mae ei ddysgyblion yn amredeg o *annuwiaeth* i *amlldduwiaeth*, rhai o honynt yn credu mewn anfarwoldeb ac eraill yn gwrthod y cyfryw athrawiaeth? Iawn i *Dame Nature*, onite, ddywedyd yr un peth wrth bawb o'i phlant? O, ie, meddai pleidwyr Crefydd Natur, nid yw'r bobl i gyd yn iawn ddeall lleferydd anian, onite, buasent oll yr un farn. Iawn ddeall lleferydd anian! Paham na bai Duw yn siarad a dynion yn natur mewn parabl mor groew a dealladwy fel na byddai camddeall yn bod? Felly, os yw gwaith dynion yn amrywio oddiwrth eu gilydd gyda golwg ar yr hyn a ddysgir yn yr Ysgrythyrau yn tori lawr gredadwyaeth Crefydd Ddatguddiedig, nid yw Crefydd Natur ychwaith uwchlaw

drwgdybiaeth. Gwir mai llais Duw a glywir yn y greadigaeth, llais Duw a glywir hefyd yn yr Ysgrythyrau, a phan y delo dynolryw i iawn ddeall y ddau gyfrwng, pryd hyny y bydd "Undeb ffydd." Wele yn canlyn ryw ychydig o blith llawer o groes opiniynau anghredinwyr, a bydded i edmygwyr y Beibl werthfawrogi'r Hen Lyfr yn gymmaint, os nid mwy nag erioed.

Yn ol Themistius, yr oedd mwy na thri chant o athronwyr yn y gwledydd gorllewinol yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd, a hyny ar bynciau o'r pwys mwyaf. Yn ol Varro, yr oedd dau cant a phedwar ugain ac wyth yn methu cydweled gyda golwg ar y "*summum bonum*," neu'r *prif ddaioni;* ac yr oedd tri chant o wahanol feddyliau yn mherthynas i'r Bod o Dduw, neu fel y mae Varro ei hun yn dywedyd, yr oedd tri chant o *Jupiters*, neu brif dduwiau. Yr oedd Critias, Theodotus, Diagonas, y Pyrrhoniaid, yr Athrofyddion Newydd *(New Academics)*, a'r Epicuriaid, yn gyffredin naill ai yn amheuwyr neu yn atheistiaid.

Yr oedd Aristotle yn gwadu creadigaeth y byd, a rhagluniaeth Duw, mor belled ag y mae yn perthyn i'r byd hwn. Yr oedd y Stoiciaid ac amryw eraill yn dysgu mai tân oedd Duw; a Parmenides a fyntumiai ei fod yn rhanol yn dân a dw'r. Xenophanes oedd o'r farn mai mater, neu ddefnydd yn gyffredin oedd Duw. Eraill oeddynt yn dal mai "*anima mundi*," neu enaid y byd oedd Duw. Yr oedd Socrates a Plato yn dysgu bodolaeth un Duw, ond eto yn cymeradwyo ac yn anog addoliad i dduwiau lluosog y wlad. Yr oedd Cicero a Plutarch yn dal fod dau brif dduw, un yn dda a'r llall yn ddrwg. Y mae yr enghreifftiau uchod yn ddigon i ddangos fel yr oedd philosophyddion penaf y cynoesau yn anghydweled yn mherthynas i'r mwyaf o bob pwnc, ac yn ddigon i brofi nad yw casgliadau philosophyddiaeth bob amser yn ategau digon sicr a safadwy i orphwys arnynt.

Yr oedd y philosophyddion eu hunain, gan gymmaint yr amrywiaeth a'r anghyssoniaeth oedd rhyngddynt, yn teimlo yn ddyrysedig a phoenus, ac mewn canlyniad, nis gallant fod o nemawr awdurdod fel athrawon y bobl yn gyffredin. Dan deimlad dwys o ammherffeithrwydd ei philosophi ei hun, dywed Plato yn ei Epinomis, "Na ryfyged neb i ddysgu, os na bydd Duw yn dangos y ffordd."

Mae Cotta, yn *Cicero de Nat. Deor.*, yn beio y rhai a ymdrechant brofi bodolaeth y duwiau trwy resymau, oblegid y maent, meddai, trwy hyn yn gwneuthur yr athrawiaeth yn amheus, tra yr oedd traddodiadau eu hynafiaid wedi eu gwneuthur yn sicr.

Dywed Plutarch, mai'r prawf goreu i ymddibynu arno mewn materion crefyddol yw traddodiad yr hynafiaid.

Siaredir y'nghylch pa bethau sydd *iawn*, ond dywed Plato nad oes wrth natur, y fath bethau i gael, gan fod dynion bob amser yn gwahaniaethu yn eu cylch, ac yn barhaus yn ceisio gosod i fyny ryw safon newydd i benderfynu'r *cam* a'r *cywir;* o ganlyniad, meddai, nis gall fod un ddeddf oddieithr i Dduw ei rhoddi i mi.

Mae Porphyry yn cyfaddef fod eisiau rhyw gynllun cyffredinol i

waredu eneidiau dynion, nad oes un blaid o philosophyddion wedi ei gael allan eto.

Er fod philosophyddion diweddar wedi mwynhau goleuni Datguddiad, ac wedi cymeryd o'r Ysgrythyrau bob tyb ddiffynadwy, neu egwyddor o werth mewn cysylltiad a moesoldeb, eto nid ydynt nemawr os dim mwy unol na philosophyddion paganaidd mor gynted ag y maent yn troi eu cefnau ar wirioneddau datguddiedig. Er engraifft,—

Arglwydd Herbert o Cherbury, yn ddiddadl y mwyaf a'r goreu o'r philosophyddion deistaidd Seisnig sydd wedi gosod i lawr y pethau canlynol, sef,—1. Mai Cristionogaeth yw'r grefydd oreu. 2. Fod y grefydd gyffredinol *(universal)* ag oedd natur wedi ddysgu iddo ef yn cytuno yn hollol a Christionogaeth, ac yn cynorthwyo er ei sefydliad. 3. Fod pob crefydd datguddiedig (sef Cristionogaeth) yn ansicr hollol, ac o ychydig neu ddim gwerth. 4. Fod dynion yn cael eu cymhell a'u harwain i bechu gan eu hanian, neu eu cyfansoddiad eu hunain, ac na ddylid, gan hyny, eu condemnio yn fyrbwyll, ac ar seiliau gweinion. 5. Nad yw porthi blys a rhoddi ffrwyn i ddigofaint ddim yn bethau i gael eu beio yn fwy na'r syched a achosir yn naturiol gan y dyfrglwyf, a'r cysgni a achosir gan yr hunglwyf. 6. Mai ein dyledswydd yw addoli Duw trwy weddi a mawl, trwy edifeirwch a sancteiddrwydd, trwy adnewyddiad calon a bywyd, a bod hyn yn anhepgorol angenrheidiol er ein derbyniad gyda Duw. 7. Fod yr enaid yn anfarwol; fod dynoliaeth i ddioddef neu fwynhau mewn stâd ddyfodol yn ol eu meddyliau a'u gweithredoedd yn y cyflwr presenol, a bod yr hwn a wado'r gwirioneddau yma braidd yn anheilwng i gael ei gyfrif yn greadur rhesymol. 8. Fod ei grefydd gyffredinol ef wedi bod yn eithaf adnabyddus i bob dyn erioed. 9. Mai i'r Cenhedloedd (hyny yw, yn agos i bob dyn) yr oedd yn fwyaf anadnabyddus. Ac er y cyfan a ddywed, megys uchod, yn bleidiol i Gristionogaeth, y mae Arglwydd Herbert yn ei gwrthod fel Datguddiad, ac yn cyfrif pawb sydd yn ei derbyn fel y cyfryw yn ffol ac afresymol.

Dywed Mr. Hobbes. 1. Mai llais Duw yw yr Ysgrythyrau, ac eto nad ydynt o un awdurdod yn anymddibynol ar y swyddog gwladol. 2. Mai dawn oruwch-naturiol yw ysprydoliaeth, a llaw uniongyrchol Duw; ac eto mai ynfydrwydd yw. 3. Mai yr Ysgrythyrau yw sylfaen pob rhwymedigaeth neu ddyledswydd, ond eto nad oes ynddynt un grym rhwymedigol ond ar bwys yr awdurdod wladol. 4. Y gall y deiliad gredu yn Nghrist yn ei galon, ac eto yn gyfreithlon ei wadu o flaen yr ynad. 5. Fod Duw yn bod, ac eto mai dim yw pob peth ond y sydd fater neu ddefnydd. 6. Fod addoliad, gweddi, a mawl, yn ddyledus i Dduw, ac eto mai testyn chwerthin yw pob crefydd. 7. Mai y gyfraith wladol neu fwrdeisiol yw unig sylfaen iawn a cham. Lle nad oes cyfraith wladol mai opiniwn dyn ei hunan yw unig safon iawn a cham. Nad yw gwirionedd a chyfiawnder yn un rhwymedigaeth ar y Llywodraethwr, ac, am hyny, nas gall wneuthur un anghyfiawnder â'i ddeiliaid. Fod gan bob dyn hawl i bob peth, ac y gall yn gyfreithlon fynu pob peth a allo. 8. Mai peiriant yw dyn, ac mai materol a marwol yw yr enaid.

Dywed Mr. Blount. 1. Fod un anfeidrol a thragywyddol Dduw yn bodoli, ac eto lledawgryma fodolaeth dau fod tragywyddol ac anamddibynol. Mai yr un Duw hwnw yw awdwr pob peth, ac eto lledfynega na chrewyd mo'r byd, ond ei fod yn dragywyddol. 2. Y dylai Duw gael ei addoli trwy weddi a mawl; eto y mae yn gwrthwynebu gweddi fel dyledswydd. 3. Fod Cristionogaeth yn gyfundrefn mwy diogel na deistiaeth; ac eto nad yw datguddiad yn cael ei ategu yn ddigonol, o herwydd fod dynion yn anghytuno yn ei gylch (wrth gwrs, nis gall un athrawiaeth foesol gael ei hategu yn ddigonol, oblegid y mae gwahaniaeth barn yn bod parth pob athrawiaeth o'r fath). 4. Fod yr enaid yn anfarwol, ac y caiff ei wobrwyo yn ol llaw yn ol ei weithredoedd yn y byd hwn; ac eto fod yr enaid yn faterol, ac, wrth gwrs, yn farwol. 5. Er hyny, dywed y dylem ufuddhau i Dduw yn yr ymarferiad o rinwedd. Y dylem edifarhau a gorphwys ar Dduw am drugaredd a maddeuant.

Dywed Arglwydd Shaftesbury, fod credu mewn gwobrwy a chosp mewn stâd ddyfodol yn niweidiol i rinwedd, ac yn gwneuthur pob cymhelliadau i fywyd rhinweddol yn ddirym. Fod dysgwyl gwobrwy ac ofni cospedigaeth yn debyg i wasanaethu rhinwedd am gyflog. Fod gweithredu mewn dysgwyliad am wobrwy neu dâl yn isel a gwasaidd, na oddefa rhinwedd ddysgwyliad o'r fath; ac eto nad yw gobeithio am wobrwy ddim yn bychanu rhinwedd, ond yn brawf ein bod yn caru rhinwedd. Fod gobaith am wobrwy, ac ofn cospedigaeth, gan nad pa mor isel y byddo hyn yn cael ei gyfrif, mewn llawer o enghreifftiau yn lles, yn ddiogelwch, ac yn nerth mawr i rhinwedd; a bod y ddyledswydd i fyw yn rhinweddol yn cyfodi oddiar y manteision sydd yn deilliaw oddiwrth rhinwedd, a'r anfanteision sydd y'nglyn a drygioni. Fod y dynion hyny yn feius sydd yn dywedyd mai twyll yw'r Efengyl. Ei fod yn gobeithio y gwna pregethau Dr. Whichcot gymmodi gelynion Cristionogaeth â hi, a pheri i'r Cristionogion i'w gwerthfawrogi yn fwy nag erioed; a'i fod yn gobeithio na wna'r Cristionogion gyfranogi o yspryd gelynion yr Efengyl; ac eto testyn chwerthin yw iachawdwriaeth yn ei olwg; awgryma fod Crist yn gweithredu dan ddylanwad yspryd uchelgeisiol, fod ei sel yn greulon, a'i dymher yn erlidgar; ac mai dyfais gyfrwys yw yr Ysgrythyrau er elw y rhai a'u dyfeisiodd; fod dyn wedi cael ei eni i grefydd, duwioldeb, ac addoliad, yn gystal ag i anrhydedd a chyfeillach. Nad yw rhinwedd yn gyflawn heb dduwioldeb, ac eto mae'n ymdrechu dangos fod rhinwedd yn hollol anymddibynol ar dduwioldeb. Mai'r unig warant dros sefydliadau Cristionogol yw awdurdod y swyddog gwladol. Mai'r swyddog gwladol yn unig sydd i farnu mewn materion crefyddol, a datguddiad. Fod y gwyrthiau yn wrthun, a phe buasent yn ffeithiau, nad ydynt yn un prawf o wirionedd datguddiedig. Y dylai'r Grefydd Gristionogol gael derbyniad pan wedi ei sefydlu gan y swyddog gwladol, ac eto y mae yn ei dirmygu pan wedi ei sefydlu felly. Fod crefydd a rhinwedd yn ymddangos mor agos gysylltiedig fel y tybygir eu bod yn gymdeithion anwahanedig; ac eto fod atheistiaid yn fynych yn ymarweddu mor dda, fel yr ydym yn cael ein gorfodi i gyfaddef eu bod yn ddynion rhinweddol. Fod barn y sawl sydd yn gwadu Duw yn niweidiol i gymdeithas, ac eto

nad yw atheistiaeth o dueddiad uniongyrchol i dori lawr y gwahaniaeth sydd rhwng iawn a cham. Fod atheistiaeth yn analluog i ddyrchafu rhinwedd, ac mai ei thueddiad naturiol yw distrywio'r syniad o iawn a cham. D.

I'w barhau.

Duwinyddiaeth.

Athrawiaeth yr Iawn.

HONIR gan y sawl a ddaliant yr athrawiaeth hon fod y fath ddyfais yn angenrheidiol i alluogi Duw i faddeu, yr hyn ni allasai wneuthur heb yn gyntaf i'w gyfiawnder neu ei gyfraith, yr hon sydd yn gweinyddu cyfiawnder, gael ei anrhydeddu trwy i'w gofynion gael eu cyflawni. Yn awr, y pwnc yw, a allasai neu ni allasai Duw faddeu i bechaduriaid heb ryw ddyfais o'r fath hyn? Dál ydym ni, yr Undodiaid, nad oedd eisiau unrhyw ddyfais i alluogi Duw i faddeu i bechadur ar ei edifeirwch. Mae'r Trindodwyr, o'r tu arall, yn myntumio na allasai yn gysson âg anrhydedd ei gyfraith. "Gan farw, ti a fyddi marw," meddant, oedd y ddedfryd uwchben pechaduriaid. Anufuddhaodd ein pencynrychiolwr, Adda, y gorchymyn i beidio bwyta o ffrwyth y pren, am hyny aeth ei holl hiliogaeth tan y ddedfryd. "Dyma'r gyfraith wedi cael ei throseddu," meddant, "rhaid oedd iddi weithian gael ei anrhydeddu cyn y gallasai Duw, yn gysson a'i air, faddeu i bechaduriaid."

Cymerir yma amryw bethau yn ganiataol, sef i Adda gael ei osod yn bencynrychiolwr yr holl hil ddynol; i fod bwyta o'r pren gwaharddedig yn doriad o holl gyfraith Dduw; i fod yn gysson a threfn a chyfiawnder Duw i drosglwyddo ar eraill, ag oeddynt yn ddieuog, euogrwydd yr euog. Mae hefyd yn cynwys mai ffaith, ac nid alegori, yw hanes y cwymp.

Ond ni a adawn y pynciau hyn yn awr gan frysio i ystyried yr unig reswm a gynygir dros yr athrawiaeth, oblegid nis gwyddom am ragor nac un ag sydd yn deilwng o sylw. Y gosodiad yw fod yn rhaid cynal i fyny anrhydedd cyfraith, onite, elai yn ddirym. Diystyrid hi gan y deiliaid. Dyma yw y canlyniad, meddant, i gyfreithiau llywodraethwyr daearol, os na anrhydeddir hwynt trwy eu cario i weithrediad yn mhob trosedd. Cesglir oddiwrth hyn fod yr un mor ofynol hefyd i gyfraith Dduw gael ei anrhydeddu mewn cyffelyb fodd, naill ai trwy gospi y troseddwyr eu hunain, neu ynte, weinyddu y gosp ar ryw berson urddasol yn eu lle.

Yn awr, gan nad pa faint o wir sydd yn y gosodiad hwn gyda golwg ar gyfreithiau dynion, yr ydym ni yn dal fod yr egwyddor yn hollol ammhriodol i gyfraith Dduw.

1. Peth anghyfiawn yw cospi y dieuog yn lle yr euog. Nid anrhydeddu, ond dianrhydeddu, cyfraith yw gwneuthur hyn. Byddai enw y

brenin neu y llywodraethwr a gynygai wneyd y fath beth yn ffiaidd mewn oes a gwlad wareiddiedig. Pa faint mwy annheilwng o Lywodraethwr nef a daear fyddai y fath ddyfais? Yn mhob man a allwn ni ganfod tan lywodraeth Duw, y troseddwr ei hun sydd yn wastad yn cael ei gospi. Mae yn wir fod llawer yn dioddef o herwydd drwg-weithredoedd eraill, ond nis gwelsom neb erioed yn cael ei gospi tan lywodraeth Duw am bechod un arall. Yn wir, ni fyddai dim yn fwy anghyfiawn hyd yn nod mewn llywodraeth wladol, pa faint mwy felly yn llywodraeth y Tad Nefol! "Yr enaid sydd yn pechu raid farw." Nid oes dim sail i'r athrawiaeth hon yn llywodraeth foesol Duw, nac ychwaith yn yr Ysgrythyrau.

2. Mae gwahaniaeth annhraethadwy hefyd yn nybenion cyfreithiau llywodraethwyr daearol a chyfreithiau moesol Duw. Dyben y cyntaf yw cadw trefn mewn gwlad, ac amddiffyn bywydau a meddianau y trigolion; ond nid hyn yw dyben yr olaf. Dyben cyfreithiau Duw yw dwyn bodau rhesymol i fyny yn ffyrdd rhinwedd a daioni. Pan fyddont yn ceryddu y troseddwr, nid dyben y gosp yw amddiffyn bywydau a meddianau, a pheri dychryn ar ddrwg-weithredwyr, ond cospi y maent er mwyn gwella y troseddwr, fel y gallo ateb dyben ei greadigaeth a bod yn ddedwydd. Os felly, ynte, nis gall fod un math o gyffelybiaeth rhwng cyfreithiau daearol a chyfreithiau nefol. Am hyny mae'r athrawiaeth tan sylw yn sylfaenedig ar gamsynied.

3. Y'mhellach, rhaid addef fod perygl i awdurdod a llywodraeth brenhinoedd daearol o beidio gweinyddu cyfreithiau yn gyfiawn, neu o beidio eu gweinyddu o gwbl ar droseddwyr cyfrifol a dylanwadol. Nid yn anfynych y mae hyn wedi achosi gwrthryfeloedd a chwyldroadau; ond yn llywodraeth Duw mae y peth yn ammhosibl. Nid oes yn ei gyfreithiau ef ddim sydd yn draws-awdurdodol. Nid oes iddynt weinyddwyr ychwaith, oblegid mae yn hunan-weithrediadol, am eu bod yn sylfaenedig ar y natur ddynol. Nis gall dyn byth wrthryfela yn eu herbyn heb wrthryfela yn erbyn ei gydwybod a'i enaid ei hun. Mae y gosp yn canlyn y trosedd fel effaith, ac yn anwahanadwy oddiwrtho. Ammhosibl yw dianc rhag y gosp, ac y mae ei llymdra yn gyfartal i faintioli a mynychdra y trosedd. Am hyny nid oes eisiau anrhydeddu cyfraith Dduw, oblegid mae hi yn anrhydeddu ei hunan, ac, o ganlyniad, mae y fath ddyfais a iawn i gyfiawnder yn hollol afraid.

4. Ond nid hyn yw'r cyfan. Gwrthddywediad ynddo ei hun yw *iawn i gyfiawnder*, oblegid nid yw cyfiawnder yn Nuw ond agweddiad o'i *gariad* a'i *ddaioni*. Nis gall Duw, am hyny, ofyn iawn i'w gyfiawnder, ac nid oes arno ei eisiau. Nid dyben Duw yn cospi troseddwyr yw cynal i fyny anrhydedd ei gyfraith, ond i'w wellhau, fel y sylwasom—ei waredu o ffyrdd pechod a phoen, a chwanegu ei ddedwyddwch, oblegid nis gall bod moesol fod yn wir ddedwydd heb garu rhinwedd. Am hyny, pe byddai yn ddichonadwy i Dduw ganiatau y troseddwr i ddianc y gosp, byddai y fath dynerwch yn arwydd fod Duw yn ddiffygiol mewn cariad, oblegid byddai yn wirfoddol yn caniatau iddo, er mwyn pechod, i fforffetio ei wir ddedwyddwch. Ond gan i fod Duw yn caru pawb o'i blant, ac yn dymuned eu gwir les, rhaid ei fod yn cael ei lywodraethu

gan gariad hyd yn nod pan yn gyfiawn mewn cosp. Mae cyfiawnder yn Nuw, gan hyny, yn tarddu oddiar ei gariad. Mae yn canlyn oddiwrth hyn na all fod Duw yn gofyn iawn i'w gyfiawnder, heb iddo ryw amser fod yn ammherffaith mewn cariad. Ni a debygem nad yw edmygwyr yr athrawiaeth hon erioed wedi ystyried yn ddifrifol i ba wrthuni y mae yn eu harwain.

5. Y sylw olaf a wnawn 'nawr yw fod llymdra cyfreithiau daearol yn deilliaw oddiar ammherffeithrwydd y sawl a'u gweinyddant. Ni allant wybod pwy sydd edifeiriol, a phwy nad yw felly. Pe gwyddent hyn, gallent yn ddiberygl i ddiogelwch y deyrnas faddeu i droseddwyr *gwir* edifeiriol, oblegid ni byddai hyny yn anogaeth i annhrefn a gwrthryfel, am y byddai y troseddwr anedifeiriol yn sicr o gosp. Ond y mae Duw yn fod hollwybodol. Gwyr efe pwy sydd yn wir edifeiriol a phwy na sydd. Am hyny, mae perffeithrwydd ei natur yn symud ymaith yr angenrheidrwydd o iawn i'w gyfreithiau, oblegid nis gallant byth fyned yn ddirym trwy anufudd-dod a gwrthryfel.

O herwydd y rhesymau hyn ac eraill allem enwi pe caniatai gofod, yr ydym yn rhwym o wrthod athrawiaeth boblogaidd o iawn i gyfiawnder. Nis gall fod y fath ddyfais yn llywodraeth Duw, ac nis gallwn lai na rhyfeddu pa fodd y daeth i feddyliau dynion ddychymygu y fath ddyfais, a hyny er mwyn galluogi y Tad trugarog i weinyddu maddeuant i'w blant edifeiriol. Y tro nesaf ni gawn egluro meddwl y gair Iawn yn yr Ysgrythyrau. Gellid helaethu llawer ar y rhesymau ag ydym wedi osod yn awr ger bron ein darllenwyr, pe byddai y cyfleistra yn caniatai; ond er byred ydym wedi gorfod bod, yr ydym wedi dyweyd digon i agoryd deall y synwyrol a'r myfyrgar.

Esboniadau.

Luc xiv. 26. *Os daw neb attaf fi, ac ni chasao ei dad, a'i fam, a'i wraig. a'i blant, a'i frodyr, a'i chwiorydd, ie, a'i einioes ei hun hefyd, ni all fod yn ddisgybl i mi.*] A ydyw yn bosibl fod yn rhaid i ddyn, cyn y gallo fod yn ddysgybl ffyddlon i Grist, gashau ei rieni a'i dylwyth agosaf? Dichon fod yr adnod hon wedi roddi esgus i rai dynion anwybodus, ac o duedd ddrwg, i ymddwyn yn greulon at y rhai a ddylent fod yn anwylaf genym, a hyny tan rith gwasanaethu Crist. Ond pell yw'r Iesu o roddi y fath anogaeth i'w ddysgyblion. Ni fu neb erioed a ddangosodd fwy o serch at ei fam nac a wnaeth yr Iesu, oblegid nid ymddengys fod ei dad yn fyw yn amser ei fywyd cyhoeddus. Pan ar y groes y peth diweddaf braidd a ddywedodd, oedd anerch ei anwyl ddysgybl, Ioan, yr hwn oedd yn sefyll ar bwys, yn y geiriau byr hyn:—"Wele dy fam." Yr un modd hefyd ei fam, "O wraig, wele dy fab." Ioan xix. 26, 27. Hyny yw, cyflwynodd ei fam dylawd a diymgeledd i ofal ei ddysgybl. Nid yw yn debyg, gan hyny, fod yr Iesu yn rhoddi anogaeth i ddynion fod yn gas i'w rhieni, neu eu gwragedd a'u plant, er mwyn bod yn ganlynwyr iddo ef. Os cymera y darllenydd y

drafferth o gydmaru yr adnod uchod â Matt. x. 37, bydd y meddwl yn eglur. "Yr hwn," medd efe, "sydd yn caru tad neu fam *yn fwy* na myfi, nid yw deilwng o honof fi." Er mwyn egluro y ieithwedd hyn, sylwn fod y gair Hebraeg *(sané)* yr hwn sydd gyfystyr â'r gair Groeg *(misein)* a gyfieithir *casau* yn yr adnod tan sylw, yn cael ei arferyd mewn amrywiol fanau yn yr ystyr o *garu yn llai.* Dywedir yn Gen. xxix. 31, "A phan welodd yr Arglwydd mai *cas* oedd Leah," hyny yw, fod Jacob yn ei *charu yn llai* na Rahel. Gweler hefyd Deut. xxi. 15, 17, lle y dywedir, "Pan fyddo i wr dwy wragedd, un yn gu, ac un yn gas," hyny yw, un yn cael ei *charu ganddo yn fwy* na'r llall. Mae yr un meddwl hefyd i'r gair yn Malachi i. 2, 3, ac yn Rhuf. ix. 13, "Jacob a gerais ac Esau a gaseais." Nid ydym i ddeall fod yr Arglwydd yn casau Esau yn yr ystyr helaethaf o'r gair, ond iddo, o herwydd rhyw reswm neu gilydd ddangos mwy o ffafr i Jacob nac i Esau. Meddwl yr Iesu gan hyny yw, os na char dyn egwyddorion yr Efengyl yn fwy na'i berthynasau agosaf, nis gall fod yn ddysgybl ffyddlon iddo ef. Yn amser boreuol yr Eglwys Gristionogol, nid peth anghyffredin oedd i rieni a thylwyth agosaf dyn droi yn ei erbyn am broffesu Crist. Gobeithiwn yn awr fod meddwl yr adnod uchod yn eithaf eglur, a therfynwn gan sylwi fod anhawsder mawr i ddeall meddwl yr Ysgrythyrau yn cael ei achosi gan eu hieithwedd, a dull y dwyreinwyr o siarad, yr hwn sydd yn wahanol iawn i'r hyn yr ydym ni yn arferol ag ef. Mae yr anhawsdra hyn wedi peri llawer o wag dybiau y'nghylch eu meddwl. Am hyny, dyledswydd pob dysgawdwr Cristionogol yw symud yr anhawsdra hwn hyd byth ag y gallo, trwy egluro i'w wrandawyr ieithwedd yr ieithoedd dwyreiniol, yn enwedig yr Hebraeg, dull alegoraidd y trigolion o weinyddu addysg, y'nghyd a defodau ac arferion y genedl Hebreaidd yn yr hen amseroedd. Ond i wneuthur hyn rhaid peri i fyfyrwyr duwinyddol dalu mwy o sylw i'r Hebraeg nac a wneir yn bresenol. Ychydig iawn o'r sawl, yn ein gwlad, a gymerant arnynt ddysgu yr Ysgrythyrau i ddynion, a wyddant nemawr am dani, ac er i fod ieithwedd yr Hebraeg yn rhedeg trwy yr holl Destament Newydd, ychydig bregethwyr wyddant ddim am y iaith hono. Os gwyddant ei llythyrenau a'r ffordd i droi at air mewn geiriadur, mae yn beth mawr, er lleied ydyw. Beth feddylid am ddyn a gymerai arno i egluro i ddynion y rheolau sydd yn llywodraethu symudiadau y bydoedd wybrenol heb fod yn gyfarwydd mewn *geometry?*

Ateb i'r Gofyniad yn Tud. 136.

Bachgen a aned i ni, Mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef, a gelwir ei enw ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd. Esaiah ix. 6.] Llawer yw'r gwahanol olygiadau y'nghylch meddwl y prophwyd yma. Ystyrir yr adnod gan lawer yn brawf diamheuol o'r athrawiaeth ryfeddol hono a elwir "Duwdod Crist," a thyma'r meddwl cyffredin yn awr, ond pell ydyw, debygem ni, o fod yn feddwl yr awdwr. Ond gan nad beth, ni a daflwn naill ochr wahanol farnau esbonwyr, gan gymeryd geiriau y prophwyd yn eu cyssylltiad a'u cyf-adnodau, oblegid dyma'r ffordd sicraf yn wastad i gael allan feddwl hen awdwyr.

Yn y saithfed bennod gwelwn fod y prophwyd yn cynghori Ahaz i geisio arwydd gan yr Arglwydd na fyddai i Resin a Phecah lwyddo yn eu hamcan gelynol yn ei erbyn. O herwydd rhyw reswm nad yw'n amlwg, mae y brenin yn gwrthod cynyg y prophwyd, am na wnai, meddai, "demtio yr Arglwydd;" ond tybied ydym mai nid dyma ei wir ddyben. Mae'r prophwyd, er hyny, yn rhoddi iddo arwydd ar ei waethaf, yr hwn sydd yn gynwysedig mewn genedigaeth plentyn i'r prophwyd, enw yr hwn sydd i fod, yn ol gorchymyn yr Arglwydd, yn *Maher-shalal-chash-bads*, yr hyn o'i gyfieithu i'n iaith ni yw *Brysied-ysbail-prysured-ysglyfaeth*—enw tra hir yn unrhyw iaith. Yr arwydd oedd na fyddai y plentyn yn abl i ddyweyd "*avi*" ac "*immi*," sef "fy nhad," a "fy mam," cyn y byddai y ddau frenin uchod, golud Damascus ac ysbail Samaria, wedi cael eu dwyn ymaith o flaen brenin Assyria. Yna y mae y prophwyd yn myned rhag ei flaen i ragfynegu y dinystr sydd ar gyfer Assyria ei hun, ac a fydd yn sicr o'i goddiweddyd ryw ddydd. Arweinia hyn ef i gysuro Judah, gan ragfynegu iddi amser dedwydd, er maint y dioddefaint fydd yn rhaid iddi yn gyntaf fyned trwyddo o herwydd ei hanufudd-dod, Dyweda y bydd tywysog i gyfodi ynddi ryw ddydd, ar frenhiniaeth yr hwn ni bydd diwedd. Ein meddwl ni yw mai cyfeirio wna at ddyfodiad y Messiah. Er na wyddai pryd yr ymddangosai, na pheth fyddai natur ei deyrnas, y mae yn sicr y byddai yn llawer rhagorach na neb fu o'i flaen. Ei enw fydd, nid fel ei fab ef, *Maher-shalal-chash-bads*, yn arwyddo rhyfeloedd ac ysbail, ond *Pele-ioêts-êl-gibbôr-avi-add-sar-shalôm*, fel arwydd o lwyddiant, tangnefedd, a dedwyddwch ei deyrnas. Mae yn enw maith, mae yn wir, ond y mae y person i fod yn un urddasol. Ni awn y'mlaen yn nesaf i esbonio yr enw, a'r adnod.

Canys.] Y rheswm sydd gan y prophwyd i ddysgwyl y buddugoliaethau a ragfynega yn yr adnodau blaenorol, *canys* cyfyd cyn bo hir dywysog na welwyd erioed o'i fath.

Bachgen.] Y gair Hebraeg yw *ieledd*, sef bachgenyn ieuanc.

A aned i ni.] Neu er ein mwyn. Nid oedd eto wedi ei eni, ond yr oedd ei enedigaeth mor sicr, a phe buasai eisioes wedi cymeryd lle. Safai y weledigaeth o flaen llygad meddwl y gweledydd yn y llewyg brophwydol fel ffaith wedi ei chyflawni yn barod.

Mab a roddwyd i ni.] Llinell gyfatebol *(parallelism)*, ac yn meddwl yr un peth â "Bachgen a aned i ni."

A bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef.] Ar ysgwydd y cludir beichiau, am hyny dywedir yma y bydd pwys llywodraeth i orphwys ar ysgwyddau y bachgen. Meddylia Esgob Lowth fod yma gyfeiriad at oruchwylwyr, y rhai, er mwyn dangos eu hawdurdod, a garient allwedd ar eu hysgwyddau. Gan nad beth, mae y meddwl yn eithaf eglur.

A gelwir ei enw ef.] Yn hytrach *galwyd (vayyikra) ei enw ef.* Yr oedd yr enw yn y weledigaeth o flaen llygad y prophwyd.

Rhyfeddol.] Cymmaint yn wahanol oedd y tywysog hwn i fod i dywysogion y byd yn gyffredin, fel ag i beri syndod ar y byd.

Cynghorwr.] Yr oedd cynghorwyr mewn parch mawr gyda brenhinoedd, ac yn wastad yn agos atynt fel i gael eu mheddwl ar faterion pwysfawr y llywodraeth. Yma dynoda y gair *ioets*, a gyfieithir *cynghorwr*, ddoethineb ac addasrwydd y tywysog rhyfeddol hwn i lywyddu goruchwylion llywodraeth

Y Duw cadarn.] Dynodi urddas y tywysog wna'r enw hwn, yn Hebraeg *él gibbór.* Mae i fod yn *él* nerthol a chadarn yn erbyn ei elynion, i ddiogelu ei dywysogaeth *(hammisra)* ac i lywodraethu ei ddeiliaid.

Teilwng yw o sylw yma fod yr enw *duw*, yn Hebraeg *él* ac *elohím*, yn yr Ysgrythyrau yn cael ei gyflwyno i farnwyr a rhai mewn awdurdod. Yr oedd Moses yn Dduw i Pharaoh, Exod. vii. 1. Yn Exod. xxi. 6, darllenwn y geiriau hyn,—"Dyged ei feistr at y barnwyr," yn Hebraeg, at yr *Elohim*, neu y duwiau, Yn Exod. xxii. 8, dywedir, "Os y lleidr ni cheir, dyger perchenog y ty at y swyddogion," yn Hebraeg at yr *Elohim.* Gellid dyfynu manau eraill i'r un perwyl. Dywed Crist (Ioan x. 35), "Os y galwodd efe hwynt yn dduwiau at y rhai y daeth gair Duw," yr hyn sydd yn profi mai peth cyffredin oedd cyflwyno y gair *él* neu *elohim* i ddynion ag oeddynt yn flaenorwyr ac yn ddysgawdwyr y genedl, ond nid ystyrir fod y sawl a elwid felly yn meddu ar uwch natur na dynion eraill.

Dylai edmygwyr yr athrawiaeth ryfeddol o Dduwdod Crist ystyried gan nad pa mor ddyrchafedig oedd o ran ei natur, mai *mab* oedd wedi y cyfan—*bachgen* wedi ei eni, er ei fod yn cael ei alw yma *él gibbór*, neu yn Gymraeg, "y Duw cadarn."

Ni a debygem mai braidd y dywedai y mwyaf anwybodus i'r Duw Hollalluog gael ei eni, a bod iddo unwaith dad a mam, nac ychwaith y gallasai gyfyngu ei hun mewn corph dynol! Beth, ynte, sydd i ni ddeall wrth y gosodiad fod Crist yn Dduw gogyfuwch a'r Tad?* Dylai y sawl a ddaliant yr athrawiaeth egluro i ni, cyn ein condemnio, beth feddyliant wrth Dduwdod Crist, oblegid y mae nid yn unig yn ddywediad tywyll, ond yr ydym yn dra sicr na cheid dau ddyn mewn unrhyw gynulleidfa Drindodaidd yn deall wrtho yn gymmwys yr un peth.

Tad tragywyddoldeb.] Cyfarfyddir a'r gair Tad yn yr Ysgrythyrau mewn amrywiol ystyr—tad, tadcu, hynafiad. Tad tragywyddol sydd i ddeall yma, hyny yw, un yn ymddwyn at ei ddeiliaid, nid fel teyrn sarug a chreulon, ond fel tad tyner, yn fwynaidd a chariadlawn, a chan na fydd terfyn o ran amser ar ei deyrnas, ni fydd terfyn ychwaith ar ei dadol gariad.

Tywysog tangnefedd.] Hyny yw, tywysog tangnefeddus. Tuedd ei weinyddiaeth fydd adferyd a bytholi heddwch ar y ddaear. Yn hyn hefyd bydd yn wahanol iawn i frenhinoedd yn gyffredin, y rhai a ymhyfrydant mewn terfysgoedd, rhyfel, a gollwng gwaed.

Wele ni yn awr wedi rhoddi meddwl y prophwyd yn yr adnod hon, fel yr ymddengys i ni, yn eglur a diduedd. Nis gallwn ganfod yr awgrymiad lleiaf ynddi at yr hyn a elwir Duwdod Crist—athrawiaeth ag y bu y byd yn anwybodus o honi lawer o gannoedd o flynyddau wedi amser y prophwyd Esaiah.

---

* A'r Duw hwnw i farw, fel y clywsom yn ddiweddar yn cael ei ganu mewn Capel Trindodaidd! Pa fath feddwl isel raid fod gan filoedd yn ein gwlad am Dduw!

ER COFFADWRIAETH DAFYDD JENKIN REES,

O Llwydjack, gwr hynod enwog am ei rinweddau, a chyfaill hawddgaraf i'r awdwr.

Dysgu a gwneud ewyllys Duw
Hoffai bènaf tra bu byw;
Carai Dduw, a charai ddyn
Fel yr oedd yn caru 'i hun.

'Nol helaethrwydd serch y Tad,
A mwyn gariad Iesu mad,
Ei haelioni llifai ar lled,
I bob enw, plaid a chred.

Ei dwym' galon, megis brawd,
Doddai at y noeth a'r tlawd;
Rhöe i bererin blin o bell
Ran o'i wely, 'i gôd a'i gell.

B'le mwy cair, neu 'rioed y cawd
Yn ein bro mor haeled brawd?
Wedi 'i ddysgu gan ei Dduw
'Garu pawb o ddynol ryw.

Ni bu gelyn iddo 'n bod
Ar y ddaeren hon erio'd;
Bydd pob enaid iddo 'n ffrynd
Yn y nefoedd lle mae 'n myn'd.

Cariad, serch, llawenydd, hedd,
Fyth dywynent yn ei wedd;
Nofio moroedd cariad ca
Gydâ Duw a dynion da.

Pe gallasai, 'e droisai i dre'
Dae'r ac uffern 'nol i'r ne',
'U genedigol wreiddiol wlad
Appwyntiwyd iddynt gan eu Tad.

Gymmaint gwynfyd sy 'n y Nef,
Lle mae pawb o'i anian ef,
Yn cyduno i foli'r Tad,
Byth am iechydwriaeth rad.

Pum Gofyniad i Feddylwyr Diragfarn.

1. A oedd Jesu Grist yn deall yr hyn a ddywedai pan y dysgai mai ein Tad ni yw Duw? Os felly, a ydyw yn bosibl y gwna Duw iechydwriaeth dyn i ymddibynu ar ei dderbyniad o gredo iawnffyddiol, a bwrw ymaith ei blant o'i bresenoldeb o herwydd na fuasent yn credu yr hyn nas gallasai eu rheswm ei gymeradwyo?

2. A ydyw "Gair Duw" yn meddwl yr hyn y mae yn ddyweyd pan yn galw ar bob dyn i ddyfod i'r goleuni, ac i brofi pob peth? Os felly, oni raid i reswm a chydwybod fod yn arweinyddion i ni y'mhob peth, ac oni ddylai dyn gael ei gymeradwyo yn hytrach na'i gondemnio am wrthod yr athrawiaethau ag y mae yn credu sydd gyfeiliornus a niweidiol?

3. Y'mhlith yr athrawiaethau cyfeiliornus yma oni ellir rhestri yr athrawiaeth sydd yn dysgu fod Duw yn un Bod ac eto yn Dri Pherson; yr

athrawiaeth fod llid Duw yn cael ei ddofi trwy aberth; yr athrawiaeth sydd yn dysgu y gellir boddloni cyfiawnder Duw trwy gospi y dieuog yn lle yr euog; yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy dywalltiad gwaed, neu gyfiawnder cyfrifol; yr athrawiaeth o ysbrydoliaeth lythyrenol y Beibl, yr athrawiaeth o boenau tragywyddol; yr athrawiaeth o etholedigaeth ddiamodol, yr hon sydd yn gwneuthur cariad Duw mor gul â chredo dyn?

4. Onid yw yn fwy rhesymol i gredu y bydd y Tad Nefol yn llawenhau, yn hytrach nâ'r gwrthwyneb, fod ei blant yn coleddu meddyldrychau tebyg i'r rhai hyn:—Mai efe ydyw yr unig Dduw, ein Tad ni oll; ei fod wedi galluogi, addysgu, ac arwain ei holl blant, yn ol eu gwahanol alluoedd, i dderbyn ei ysbryd a'u tywys tuag at berffeithrwydd; ei fod yn ein harwain rhag ein blaen yn y fath fodd ag y cawn oll achos i lawenhau yn y pen draw; fod ei gariad a'i drugaredd dros ei holl waith; fod Iesu, ei Fab, wedi dyfod i ddatguddio ei gariad trwy weithredoedd da, ac nid i ddofi ei lid trwy aberth gwaedlyd; fod y ffordd i'r nef yn agored i bawb, ac mai y pur o galon, ac nid y cywir gredo yn unig, a'i meddiana; na chollir un o'i blant dros byth; na fydd gan Satan ddim rhan gydag ef yn ei lywodraeth dros byth, ac na chaiff pechod a thrueni ddim gwneuthur ei lywodraeth yn amnherffaith a diffygiol dros byth.

5. Os na ellwch ateb y gofyniadau yma ond mewn un ffordd, onid ydych yn meddwl ei fod o'r pwys mwyaf i chwi i roddi chwareu teg i'ch argyhoeddiadau trwy chwilio am gartref crefyddol lle mae yr hyn a deimlwch sydd wirionedd yn cael ei broffesu? Neu mewn geiriau eraill onid ydych yn tybied fod yn beth o bwys mawr i chwi i weithredu yn unol â thueddiadau eich rheswm a'ch cydwybod?

Gydgristionogion, ystyriwch y gofyniadau uchod. Nid ydynt newydd i'r byd, ac nid yn bresenol y maent i'w hateb am y tro cyntaf. Y mae miloedd lawer yn ac allan o'r eglwys yn eu sisial wrthynt eu hunain. Yn fuan daw yr ofnus yn ddewr, a'r hyn a siselir yn y glust, ac a glywir yn yr ystafell, a ddaw i hawlio atebion na fyddant i ddiraddio y gydwybod a darostwng y deall cyn y gellir eu derbyn.

Yr athrawiaethau yn y trydydd gofyniad a elwir yn gyffredin "yn uniawngred"; y rhai yn y pedwerydd a ddysgir gan Undodiaid.

Gellir yn ddiogel eu gadael i lefaru drostynt eu hunain wrth ddeall a chydwybodau dynion diragfarn.

Gohebiaeth.

Anwyl Syr,

Bum yn bwriadu ysgrifenu atoch ys tro ar bwnc pwysfawr yn fy ngolwg, sef crefydd—pwnc ag wyf wedi talu peth sylw iddo er pan yn ieuanc, ond llawer mwy yn ddiweddar.

Caniatewch i mi ddyweyd mai Trindodwyr yw fy rhieni. Cefais fy nwyn i fyny mewn ysgol Drindodaidd, a'm harwain i goleddu meddyliau cul âm yr Undodiaid. Yn wir, fel llawer mewn anwybodaeth, yr

oeddwn yn edrych arnynt, hyd yn ddiweddar, fel dynion cyfeiliornus ac annheilwng o'u galw yn Gristionogion; ond yn awr mae fy marn am danynt ac am Undodiaeth wedi cyfnewid yn hollol. Hen wr deallus yn y gymydogaeth yma fuodd yn foddion i roddi i mi oleuni gwell, yr hwn a eglurodd i mi bynciau crefydd a'r syniadau Undodaidd, a theimlaf byth yn ddiolchgar iddo, oblegid yr wyf yn cael mwy o gysur mewn crefydd yn awr nac a gefais erioed o'r blaen. Yn wir, Syr, yr wyf yn teimlo fel pe bawn wedi cael bywyd newydd. Yn awr canfyddaf fod gwaith Duw yn ogoneddus y'mhob man ac y'mhob peth, ac mai Tad ydyw yn caru pawb o'i blant. O'r blaen yr oeddwn yn meddwl mai bod digllon ydoedd, yn gwrthod maddeu i bechadur heb gyflawn dâl i gyfiawnder, a hyny trwy gospi un na wnaeth ddrwg erioed yn ei erbyn. Yr oeddwn yn meddwl fod Crist yn llawer gwell bod na Duw, a gallaswn ei garu; ond nis gallaswn garu y Bod llym a fynai iawn hyd yr eithaf am bob trosedd yn ei erbyn. Wedi gweled gwrthuni y fath syniad, yr wyf yn awr yn gallu caru Duw a rhoddi fy holl ymddiried ynddo fel Tad daionus a graslawn. Nis gallaf deimlo yn rhy ddiolchgar am y goleuni newydd wyf wedi gael. O, mor ardderchog yw y syniadau Undodaidd am Dduw ac am Iesu Grist! A thyma'r dynion y dywedwyd wrthyf am danynt eu bod yn gwadu Crist! Nid oes braidd eisiau sylwi fod llawer o rwystrau wedi cael eu taflu ar fy ffordd wedi i mi dd'od yn Undodwr, a hyny gan fy nghyfeillion agosaf, y rhai ydynt yn meddwl yn rhagfarnllyd am danaf; yn wir nid yw fy rhieni y'mhell o feddwl felly. Er hyny nid oes arnaf gywilydd i arddel fy syniadau newydd, ac yr wyf yn foddlon dioddef pob peth er eu mwyn. Ond yr wyf yn teimlo un golled fawr, sef nad wyf yn cael cyfleistra i gydaddoli ag Undodiaid, ac nid wyf finau mewn amgylchiadau fel y gallwyf fyw lle mynwyf, oblegid wrth fy ngalwad *clerk* wyf mewn swyddfa gwaith glo, ac nid oes cynulleidfa Undodaidd yn agos. Gobeithio y caf y fraint rywbryd o gael sefyllfa lle y gallwyf gyrchu ar y Sabboth i addoli gyda'r sawl sydd yn dal yr un syniadau.

Gan obeithio yr esgusodwch y rhyddid wyf wedi gymerŷd i ysgrifenu atoch,

Ydwyf, yr eiddoch yn ostyngedig,

J. D.

HEN LYTHYRAU O GYMRU.*

LLYTHYR II.

At Mary Powell, Pencader, America.

Bargod, Tach. 25, 1719.

Anwyl Chwaer:—Cefais lythyr oddi wrthych chwi a Thomas dydd Iau diweddaf; ac yr oedd yn dda iawn genyf fi a phawb o'm teulu ei gael, a deall eich bod yn iach a chysurus, Yr oedd y swn wedi cael ei roi allan yn yr ardaloedd hyn fod Thomas wedi dy werthu di, Mari, i ddyn du am ddeugain punt; a pharodd hyny ofid mawr i bawb o honom, yn enwedig mam. E fu hi yn ffaelu cysgu llawer noswaith o blegid hyny. Aeth y swn

---

*O "*Faner America,*" *Awst* 3, 1870.

allan ar ol hyny fod Thomas wedi ei ladd gan arth yn y coed, a bod llythyr wedi d'od at rywrai ym mhlwyf Llanfihangel Ieroth yn dweyd hyny. Aeth nhad yno un diwrnod, a bu yn holi llawer o'r bobl sydd â'u tylwyth yn yr ardaloedd yna; ond nid oedd neb o'r rhai hyny yn gwybod dim am y mater.

Yr wyf yn deall mai fel hyn y dechreuodd y peth. Yr oeddym ni wedi myned i Ros Sir Gaer i ladd tyweirch un diwrnod: yr oedd yn ddiwrnod teg hyfryd. Yr oedd genym dri lladdwr a chwech taenwr, a nhad yn edrych ar ein hol. Yr oedd teulu Blaencwm yn lladd tyweirch ger llaw i ni; ac wrth fyned adref, cynygodd John Blaen Cwm fyned heibio i ni; ond wedi iddo dd'od i'n cyfer, dechreuodd Siencyn fy mrawd annog ei geffylau, a bu rhedeg dychrynllyd rhyngddynt; ond ein ceffylau ni gariodd y dydd, ac fe deimlodd pobl Blaen Cwm yn chwith am hyny; ac yr ydym yn deall i Evan daenu y chwedlau yma ar hyd y wlad i gael dial arnom ni. Yr oedd Evan heb dd'od i Blaen Cwm pan oeddych chwi yma. Mab yw ef i gapten y lladron y clywsoch son am danynt eu bod wedi bod yn cadw yn Nghastell Castell Newydd. Pan ddaeth y gwyr ceffylau i lawr o Loegr yn erbyn y lladron, ac iddynt hwythau ffoi o'r castell, gosodwyd y milwr glewaf ar y ceffyl goreu i ymlid ar ol y capten. Llwyddodd y milwr i'w saethu dan Allt Gelli Cati, a syrthiodd ei gorff oddiar ei geffyl i ganol y ffordd, ond bu raid i'r milwr yru mor belled a Bwlch Melyn, ger llaw Pont Rhys Eli, cyn dal y ceffyl. Pan ddaeth yn ol yr oedd neidr a llyffant yn yfed gwaed y capten, ac y maent yn dyweyd i'r milwr gael dau cant o bunnau yn ei boced. Mab iddo ef yw Evan Blaen Cwm a luniodd y 'storiau am danoch chwi.

Y mae genyf dipyn o gyfrinach i'w ddywedyd wrthych fan hyn. Y mae Evan Parry, Bwlch Gwyn, wedi bod yn cadw cwmni â fi yn ddiweddar, a bachgen *smart* yw ef hefyd. Ni aethom gyda'n gilydd i Ffair Haf Castell Newydd, ar bob o geffyl. Yr oeddwn i yn marchogaeth y gaseg las, a chyfrwy tuog newydd o danaf, a phais a gwn bach streip newydd tanlli am danaf, a chap â las newydd am fy mhen; ac Evan yn marchogaeth y ceffyl coch, a *breeches* pen lin newydd, a chot las a gwyn newydd, ac esgidiau â bwclau gloewon. Yn wir, yr oedd efe yn edrych yn daliaidd. Aethom i'r Red Lion, a rhai cyfeillion gyda ni. Yn ol bod yno awr neu ragor, daeth mab Penlan Fawr, bachgen tal, glân, i geisio fy nghael i oddiwrth Evan, ac aeth Evan i dyngu a rhegu, ac eisiau ymladd, a dyna lle'r aeth hi'n gynhwrf, a chyfeillion y ddau yn rhedeg yno; ond yr oedd gan hwnw fwy o gyfeillion, gan ei fod yn byw yn nes i'r dref. Ar ol tafodi tipyn, dyna hwy yn dechreu curo eu gilydd yn ofnadwy. Yr oeddwn yn ofni y buaswn yn cael fy nhynu bob yn getyn ganddynt; ac nis gwn beth ddaethai o honof oni buasai i Wil Rees, Penrhiw, fy nghael i ryw ystafell, a'm cloi i fewn yno. Clywn hwynt yn myned allan dan ymladd, gwaeddi, a throedio eu gilydd, a'r holl ffair yn rhedeg yno; ac yr oeddwn trwy y ffenestr yn gweled y pastwyni i fyny fell gallt o goed, a hwythau yn dyrnu eu gilydd yn echryslon. Yr wyf yn gobeithio na welaf y fath olygfa byth ond hyny. Yr oeddwn yn edrych i bob man am Evan, ond yn methu i weled; ond deallais wedi hyny y buasai efe yn lled debyg o gael i ladd oni buasai i Wil Rees lwyddo i'w gael allan trwy ddrws y cefn, a'i guddio yn y 'stabl. Y mae'r bechgyn yn gyffredin yn rhedeg ar Wil Rees, eisieu na buasai yn eu helpu i ymladd. Ond yr wyf yn deall mai'r esgus sy ganddo yw ei fod wedi myned yn ddyn da yn Pant y Creuddyn. Cafodd ei dderbyn yn aelod ddechreu yr haf diweddaf. Ond yr wyf yn meddwl y dylasai helpu eu gyfeillion mewn caledi, o ran hyny; ac yr wyf yn ffaelu peidio meddwl taw *coward* yw Wil. Cafodd fy nghap à las i ei rwygo, fel nad yw yn werth dim; ac fe rwygwyd cot newydd Evan yn gareion oddi am ei gefn. Maent yn dweyd mai dyna y frwydr fwyaf fu yn Ffair Haf eleni. Ond

mae nhad a mam yn teimlo yn ddiwg iawn o'r achos, ac yr wyf fi yn ofni na wnânt fy ngollwng i un ffair ond hyny. Yr wyf yn credu fod fy nhad a'm mam i yn fwy penwan a manol na thadau a mamau yn gyffredin. Mae arnaf chwant weithiau i dd'od i America, neu fyned i maes i wasanaethu a'u gadael,

Bûm yn ddiweddar, heb wybod i nhad a mam, gyda Doli y Witsh o Lanwenog, yn cael darllen fy ffortiwn. Hen fenyw farfog ydyw, à gwyneb crychlyd, wedi colli ei dannedd yr ochr uchaf i gyd ond tri neu bedwar, ac y mae'r rhei'ny yn edrych yn debycach i ryw hoelion mawrion nag i ddannedd. Ar fy ngair gwir i, yr oedd golwg ofnadwy arni, nes gyru aeth trwy fy nghalon wrth ci gweled. Hi gydiodd yn dyn yn fy llaw, gan edrych yn fy llygaid fel pe buasai am edrych i mewn i fy mhen. Yr oeddwn yn teimlo fel pe buasai llygad neidr arnaf. Dechreuodd ddweyd, "Merch lân i, y mae genych fochau cochion; maent fel y rhos cochion sydd yn tyfu yn ardd Coedlanau. Gaf fi ddarllen eich ffortiwn chwi? Mi wedaf y gwir bob gair wrthych—gwnaf, wirionedd fach anwyl i; a dim ond chwecheiniog yr wyf yn geisio am hyny. E fu merched 'ffeirad Llanybydder gyda fi neithiwr, a chefais swllt y llaw ganddynt; do, byth o'r fan yma; merched glân oeddynt hefyd; ond y mae gwell planed genych chwi. Gaf fi ddweyd eich ffortiwn chwi?" Yn ol i mi roi cenad iddi, a thalu chwecheinog iddi am hyny, hi edrychai ar dorau fy nwylaw fel pe buasai yn gweled rhywbeth mewn llestr gwydr coch, gan fwmial wrthi ei hunan. Gwedi hyny, hi fu'n syllu yn fy llygaid, a thynu ei llaw dros fy nhalcen, ac yna hi ddywedodd, "Yn wir, yr y'ch chwi yn ferch lân! Nid yw merched 'ffeirad Llanybydder, na merched Llwyd Gilfach Wen, ddim byd atoch chwi. Y mae tor eich llaw yn dangos y bydd i chwi gael bord lawn a helaeth yn eich ty. Y mae'r bechgyn wedi bod yn ymladd am danoch yn barod, ac fe fydd llawer o ymladd eto yn eich cylch. Y mae dau fachgen bron bod yn ddwl am danoch yn awr; ac fe ddaw bachgen glân arall, a gwallt coch a llygaid gleision, sydd yn byw mewn fferm fawr mewn dyffryn hyfryd, i'ch caru cyn diwedd y gauaf. Chwi gewch faint a fynoch o gariadon. Ond bachgen glân tal o sir arall, na welsoch erioed o hono, fydd eich gwr. Y mae yn fachgen cyfoethog, a chanddo ffarm fawr ei hunan. Chwi briodwch cyn pen dwy flynedd. Y mae'r leinau hirion ar dor eich llaw yn dangos y byddwch fyw yn gysyrus iawn. Dir-cato ni! peidiwch chwi gwneyd rhyw gewc fel yna, fel pe bawn i yn dweyd celwydd wrthych. O, chwi fyddwch yn hapus! Yr wyf yn deall wrth eich llygaid eich bod yn caru bachgen arall yn awr; ond y llall fydd eich gwr chwi. Mewn neithior y gwelwch eich gwr cyntaf. Y mae'r crychau sydd ar eich talcen yn dangos eich bod i gael dau wr cyn marw, ac wyth o blant. Raid i chwi ddim gwenu! Yr wyf yn dweyd y gwir bob gair wrthych, fy merch fach i. Ydwyf ar fy 'nestrwydd glân i! Llygaid duon fydd gan eich gwr cyntaf, a llygaid gleision gan yr ail. Chwi symmudwch i sir arall i fyw ar fferm eich gwr. Chwi fyddwch yn hynod o hapus. Ffarwel i chwi'r lili lân!" Cyn belled ag wyf yn cofio, dyna bob gair gefais ganddi am fy chwecheiniog. Y mae rhai yn haeru na wyr hi ddim, ond mai twyll i gyd sydd ganddi; ond yr wyf fi yn credu ei bod yn gwybod, a'i bod yn yn dyweyd y gwir.

Fe allai eich bod yn cofio Macdonald y Scotshman, yr hwn oedd yn cario pethau ar hyd y wlad i'w gwerthu. Bu yn cin ty ni yr wythnos ddiweddaf, ac fe brynodd mam gap à las newydd i fi gydag ef, a defnydd clogyn, a rhyban newydd pert anghyffredin.

Y mae Mr. Lewis, Dinas Cerdin, wedi dyweyd rhyw reffyn hir wrthyf i'w anfon atoch, yn nghylch ei gofio atoch, ac at ei holl gyfeillion yn Pencader Newydd; a'i fod yn gobeithio eu bod yn parhau yn bobl dda grefyddol; ond nid oes genyf le i roddi degwm ei siarad i lawr yma. Chwi ellwch

ddyfalu beth ydyw, oblegid rhywbeth yn nghylch crefydd sydd ar ei dafod ef yn wastad.

Yr ydym fel teulu a chymmydogaeth yn lled iach ar hyn o bryd, ac yn cofio atoch yn fawr. Nid oes genyf le i ychwaneg. Ffarwel hyd y llythyr nesaf.

Eich ffyddlon Chwaer,
ANNA BEYNON.

Hanesion.

DYNES RYFEDDOL.—Dichon y meddylia rhai o'n darllenwyr deallus fod yr hyn a ganlyn, fel pob hanes am ddynion ymprydiedig yn ammhosibl i fod yn wir, ac na ddylem gymeryd i fyny ofod ein cyhoeddiad i adrodd y fath chwedl; ond gan nad beth, mentrwn ddyweyd fod yn awr i'w gweled yn *Willis's-rooms*, Llundain, ddynes ieuanc o wneuthuriad rhyfeddol. Mae ei chorph yn ddwbl—dau ben, dau bâr o ysgwyddau ac o freichiau, dwy galon, dwy ysgyfaint, dau gylla, a dau bâr o goesau a thraed. Yn y gwregys *(waist)* yn unig mae y cyssylltiad. Gall y ddau ben siarad yn annibynol y naill a'r llall, a chydganu. Hefyd o'r gwregys i fyny mae'r teimlad yn ddwbl, ond nid o yno i lawr. Ei henw yw Millie Christine, genedigol o America. Siarada yn addfwyn a phawb ymwelwyr. Mae gan natur amryw ffyrdd i ddangos ei mympwy. Hunan-hyderus yw'r dyn a feiddia ddyweyd fod y peth hyn a'r peth yn ammhosibl.

DR. DOLLINGER.—Dywedir fod y cyffroad yn erbyn Anffaeledigrwydd y Pab yn achosi ymrafael prysur yn *Bavaria*. Mae y rhyw fenywaidd yn gyffredin o ochr yr hen Dad, ac am hyny rhag ofn achosi cynhwrf teuluaidd, mae'r gwyr yn gorfod bod yn ddystaw. Llaw-nodwyd annerchiad cydymdeimladol i'r Doctor yn *Landshut* gan 130, ond tynodd 104 eu henwau yn ol rhag ofn eu gwragedd, ac er mwyn cael tawelwch cartrefol. Er hyny, mae Tref-gynghor *Munich* wedi penderfynu na chaiff neb eu hapwyntio i ddysgu crefydd ond y sawl a wrthodant ddysgu yr athrawiaeth o Anffaeledigrwydd.

BABOO KESHUB CHUNDER SEN.—Nid yw yn wir fod Mr. Sen wedi troi at y Methodistiaid. Rhyw Baboo arall ydoedd, ond aelod, fel yntau, o'r Brahmo Somaj. Dywedir fod y Baboo Trindodaidd ar ei daith i Loegr—efe a'i wraig—ac mai hi fydd y foneddiges Hindwaidd gyntaf a ymwelodd a Lloegr.

YSGRIF Y PRIF-YSGOL-BRAWF.—Gwrthodwyd gan y Ty Cyffredin welliant (?) yr Arglwyddi ar yr Ysgrif. sef i fod pob *Tutor* i gymeryd llw na ddysgai efe ddim yn groes i grefydd. Mae'r Ysgrif yn awr wedi ei danfon i Dy yr Arglwyddi, ac yn debyg o basio.

Y GYMDEITHAS BROSELYTAIDD IUDDEWIG.—Mae y Gymdeithas hytrach yn achwyn nad yw y llwyddiant faint y dymunai. Nid yw ryfedd genym. Gwaith anhawdd yw darbwyllo Iuddew i gredu athrawiaeth y Drindod, debygem. Creadur anghyffredin yw Iuddew Trindodaidd. Byddai cystal i'r Gymdeithas gymeryd mewn llaw i geisio troi Undodiaid Sir Aberteifi yn Drindodiaid, a cheisio troi yr Iuddewon, neu gario dw'r mewn rhidyll i ben mynydd. I wneuthur Trindodwr hyd yn nod neb, rhaid dechreu gyda llaeth y fam.

Y WESLEYAID.—Dywedir fod nifer aelodau yr enwad hwn yn 1400 yn llai eleni nac arferol, ac i fod y ffaith yn achosi tipyn o ofid i'r blaenoriaid. Yr achos o'r golled, meddant, yw cynnydd ffasiwn, difyrwch, hunanfwyniant, a serch at olud y byd, yr hyn sydd yn anghydweddol â sancteiddrwydd a duwioldeb, am hyny mae'r *Class Meetings* yn cael eu hesgeuluso. Tybied ydym ni mai y gwir achos yw fod Wesleyaeth, fel *orthodoxy* yn gyffredin, yn colli gafael ar feddyliau y werin. Mae'r plant yn pryfio, ac am hyny mae'r hen ddillad ag oedd yn ffitio flynyddau yn ol yn myned yn rhy fach—yn rhy dyn oddeutu eu cyrph. Mae yn rhaid i *Orthodoxy* ddarparu dillad newydd ar gyfer y plant, neu yntau hwy ânt lle y caffont ddillad i'w gweddu. Mae dynion yn dechreu diflasu ar glywed hen bynciau "iawnffyddiaeth," a chanfod mai peth gwahanol iawn yw Cristionogaeth i Drindod yn y Duwdod, Pechod Gwreiddiol, Etholedigaeth ddiammodol, Poenau tragywyddol, a'r cyffelyb. Maent yn d'od i ddeall fod gwir grefydd yn gynnwysedig mewn cariad at Dduw a dyn, mewn rhinwedd a daioni, mewn gweithredu cyfiawnder, ac nid mewn credu rhyw gryg o bynciau nad ydynt o un lles i'r galon na'r deall. Mae cynnydd addysgiaeth yn sicr o ddwyn dynion i iawn adnabyddiaeth o wirioneddau crefyddol, ac y mae Wesleyaeth a phob *ueth* arall yn sicr o golli'r bobl os na chadwant lygad yn llygad a chynydd addysgiaeth a gwybodaeth dduwinyddawl. O leiaf, dyma ein barn ni yn onest.

YSGRIF Y MYNWENTYDD.—Mae y Toriaid yn gwrthwynebu yr Ysgrif hon fraich ac ysgwydd, a gwinedd a dannedd, oblegid hawl yr offeiriad, meddant, yw darllen uwch ben y marw yn y fynwent. Ond er eu gwaethaf, mae wedi pasio yr ail ddarlleniad yn y Ty, ac yn awr yn y pwyllgor, er hyny mae yn amnheus genym a lwyddir i'w chario trwy y Ty yr eisteddiad hwn. Os y llwyddir, mae yr Arglwyddi yn dra thebyg o ddangos eu drws iddi, er eu bod o'r diwedd wedi pasio Ysgrif y Prif Ysgolion.

FFRAINC.—Mae Paris yn dechreu tawelu ar ol y dymhestl ofnadwy. Bu y lladd yn ddychrynllyd o'r ddwy ochr. Tebycach oeddynt i fwystfilod rheibus nac i ddynion. Dros bump diwrnod bu fflamiau y *petroleum* yn rhuo ac yn mron trechu y ddinas, a'r gwaed yn rhedeg yn llif ar hyd yr heolydd. Gwanu eu gilydd â gwnfidogau, medi eu gilydd i lawr â magnelau, a hollti eu penglogau â'r offeryn nesaf at law, oedd yr olygfa y'mhob cornel a sewar. Nid arbedid neb—henafgwr na phlentyn! Ond y weithred waethaf yn ngolwg y byd a wnaeth y Communiaid oedd saethu yr Archesgob, ac oddeutu haner cant o wystlwyr diniwed. Bydd y weithred hono yn warth drag'wyddol. Gyda golwg ar gynllun y Communiaid y'nghylch cyffrediniad meddianau, nis gwyddom fawr. Dichon fod rhai o honynt yn *Socialists*, sef yn dal y dylai meddianau fod yn gyffredin rhwng pawb, ond gyda golwg ar eu cais yn Paris, meddwl ydym ei fod yn eithaf rhesymol. Y peth mawr oeddynt hwy yn sefyll am dano, oedd fod hawl gan bob prif dref trwy holl Ffrainc i drafod ei materion ei hunan, megys ethol ei hynadon, a phob swyddwyr, sefydlu a threfni ei chwnstebli, ei milwyr, ei hysgolion, ei threthu, mewn gair, pob peth sydd yn dal perthynas a'i llywodraeth

ei hunan, fel y gwna bwrdeisdrefi yn y wlad hon. Yn Ffrainc y llywodraeth sydd yn trefnu y pethau hyn, ac nid oes gan y trigolion ddim llais mewn dim. Mae y trethi a'r cyfan yn cael eu gwneyd gan y llywodraeth. Nid oes gan y trigolion ddim i wneyd ond talu. Danfonodd y Communiaid gynygion teg i'r llywodraeth yn Versailles, fwy nac unwaith, ond ni wnai y prif weinidog, M. Thiers, wrando arnynt. Mae efe yn sefyll dros yr hen drefn draws-arglwyddiaethol. Sefodd y Communiaid allan yn ei erbyn. Ochr M. Thiers lwyddodd yn y frwydr, a chan y trechaf mae'r pwer, yr hwn a ddefnyddir ganddo â braich uchel. Pe buasai dipyn yn rhesymol at y Communiaid, nid oes dim ammheuaeth nad allasid lluddias y tywallt gwaed dychrynllyd gymerodd le. Meddwl ydym mai amcan M. Thiers yn y pen draw yw gosod brenhiniaeth i fyny eto yn Ffrainc; p'un a lwydda ai peidio, amser ddengys. Mae'r Prwsiaid o hyd yn Paris ar gost y Ffrancod, ac y maent i fod yno nes byddo y rhan fwyaf o'r dau can' miliwn o bunau wedi eu talu.

Rhydygwin.—Cynaliwyd Cyfarfod Llenyddol yn y lle hwn nawn Gwener y Groglith. Trwy haelionusrwydd rhai o wragedd y lle, cafodd y plant ac eraill dê a bara brith, ac ar ol iddynt ddiwallu eu hunain yn dda wrth y byrddau, awd i ddechreu ar wledd y meddwl. Cymerwyd y gadair gan ein parchus weinidog, pa un a'i llanwodd yn dda y'mhob ystyr. Yn nghyntaf cafwyd anerchiadau gan rai o feirdd ieuainc Rhydygwin; hefyd cafwyd adroddiad rhagorol a boddhaol iawn gan un o lanciau mwyaf gobeithiol ein Ysgol Sabbothol, sef Evan Evans, o anerchiad gwaith William Davies, pa un oedd fel y canlyn:—

"Mewn gwledd o bob hawddgarwch,
Mae imi'n rhyw hyfrydwch,
Cael anerch hon er nad yw'm dawn
Ond bychan iawn, gwybyddwch.
Cawn hanes, cawn fel yma,
'Mhob oes o'r byd am wledda;
Mae hyny'n hoff, ag eto 'nglyn
A natur dyn mi wela
Bod llawer math o wleddoedd,
Rhai'n uchel cuwch ar nefoedd,
A rhai yn isel iawn eu mhoes
Mewn gwagedd, oes rhyw filoedd!
Ond, dyma wledd ddymunol
I gorff a meddwl dynol,
E gawd 'ma de, gan rai o'n plith,
A bara brith rhagorol:
Am wneyd fath deisen dastus,
A the mor neis a melus,
'Rwy'n diolch 'nawr heb hud o swyn
I'r gwragedd mwyn haelionus.
Wel dyma wledd i'r bola,
Ca'r meddwl eto 'i wala,
Mae yma 'stor gan lawer, gwn
Ar gyfer hwn gael lloffa;
A deled pawb mewn trefen* (*Trefn).
Yw ymdrech fel gwenynen,
Cael mel i'w cell trwy wneyd cu rhan
Am dano dan bob dalen.
Cawn glywed adroddiadau,
Ac f'allai rhoi areithiau,
A dadleu gwn, a'r Cor a gawn
Yn swynol iawn ei seiniau.

Wel, dyma flordd rhagorol
I fagu plant rhinweddol,
I gydymddwyn a'r deddfau mad
Fo'n addurn gwlad Grist'nogol;
Am hyny 'rwyf am goffa,
Bydd meddwl pawb sydd yma
Yn teimlo'n well 'nol bod eu mhin
Yn Rhydygwin yn gwledda.

Ar ol yr anerchiadau, cafwyd adroddiadau a chanu; canwyd amryw Dduetts, Trios, Quartetts, gan y cerddorion ieuainc yn wir ganmoladwy. Yn ei plith yr oedd y darnau nodedig hyny, "Wers Solffa," Cwymp Llewelyn." Canodd y Cor hefyd ddarnau yn hynod gywir a tharawiadol, ac mewn arddull a chwaeth boddhaol iawn, megys "Y Fordaith," "Iddo Ef," "Mantell ddu y Nos," "Mam a Chartref," "Tu draw i'r Afon." Dymunaf hefyd gydnabod yr adroddwyr am iddynt adrodd darnau mor dda, darnau adeiliadol ac addysgiadol, a darnau oedd ynddynt drysorau yn werth i'w hargraphu ar y cof. Mae clod dauddyblyg yn ddyledus i Jenkin Jenkins (Ap Gryffudd) am ei fod mor ymdrechgar a ffyddlon gyda gwahanol ranau o'r gwaith. Er fod arwyddion henaint i'w canfod ar berson Mr. Jenkins, dymunwn iddo gael byw lawer o flynyddoedd eto, ac y bydd iddo barhau yn ei waith da hyd y diwedd, pryd y gall edrych yn ol gyda gradd mawr o hyfrydwch.

D. H. T., *Ystrad.*

Y Cribin.—Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol eleni, fel arferol, yn y lle hwn ar y 7fed o Fehefin. Dechreuwyd y Cyfarfod yn y boreu am ddeg trwy ddarllen a gweddio gan y Parch. J. Davies, Alltyblaca. Yna awd at waith y dydd, ac adroddodd Ysgol y Cribin Luc xv., a holwyd hi gan y Parch. R. C. Jones, gweinidog y lle. Ar ei hol adroddodd Ysgol y Ciliau Luc xvi., a holwyd hi gan y Parch. D. Evans, Caeronen. Ac yn olaf yn y boreu adroddodd Ysgol Caeronen Matt. xx. Holwyd hi gan y Parch. R. C. Jones, Cribin. Dechreuwyd yn y prydnawn am ddau trwy ddarllen a gweddio gan y Parch. W. Rees, Rhydygwin, ac adroddodd Ysgol Capel-y-bryn Actau xi., a holwyd hi gan y Parch. J. Davies, Alltyblaca. Yn olaf, adroddodd Ysgol Rhydygwin amryw bennodau yn Genesis a gynhwysant hanes Joseph, a holwyd hi gan y Parch. W. Rees, Rhydygwin. Cafwyd hin ddymunol, cynulliad lluosog, adrodd a chanu da, a dangoswyd eu bod yn gyfarwydd â'r Ysgrythyrau yn eu hatebion parod a phwrpasol. Bydded i'r Ysgolion barhau yn eu diwydrwydd, a bydded i'r eglwysi y perthynant iddynt wneyd eu rhan drostynt gan fod eu llwyddiant yn y dyfodol yn sicr o fod yn ymddibynu llawer ar eu hymdrech dros yr Ysgol Sabbothol. Rhoddodd y gwahanol Ysgolion foddlonrwydd i'r gwrandawyr. Nid oedd ond un achwyniad i'w glywed, sef nad oedd y Capel yn haner digon o faint i gynwys yr Ysgolion a'r gwrandawyr. Parhaed brawdgarwch, a llwyddiant i'r Ysgol Sabbothol, a derbynied pobl y Cribin ddiolchgarwch am eu carcdigrwydd oddiwrth—Un oedd yno.

Nid oes nemawr o bregethwyr yn Scotland yn darllen eu pregethau, oblegid fod y bobl yn anghymeradwyo'r arfer. Ychydig amser yn ol yn Kirkcudbright, pan oedd pregethwr yn cael ei ordeinio, gofynodd hen wraig oedd ar risiau'r pwlpud i'w chymydoges, "A yw'r pregethwr newydd yn darllen ei bregethau?" "Swt gall e' ddarllen ei bregethau," oedd yr ateb, "mae'r dyn yn ddall." "Mae'n dda gen' i glywed," ebe'r hen wraig, "ni fyddai ddim yn ddrwg gen' i tai nhwy yn ddall bob copa.

Barddoniaeth.

DEIGRYN HIRAETH

Ar ol Mrs. Evans, Porth Inn, Llandyssul.

Bu'r daith yn hir, a llawer crocs
  Yn pwyso ar ei mynwes fwyn,
Ond siriol parodd hyd ei hoes,
  A gobaith nefol yn ei chwyn.
'Roedd ystyr yn ei geiriau hi,
  A sylwedd yn ei theimlad dwys,
A mwy yn nghudd, nas gwelem ni,
  Yn sylfaen gref ei buchedd lwys.

Mae drosodd y llawenydd pur
  A brofodd yma ar ei thaith,
A throsodd mae y poen a'r cur
  Wnaeth iddi wylo lawer gwaith.
Rhyw ieuainc nwyf, er byw mor hir,
  Oedd yn ei chalon hyd yn awr;
Fel derwen hen, o flagur ir,
  Fai 'n llawn, nes cael ei thori lawr.

Y llygad llon, a'r fron ddifrad,
  A'r mamol lais o serchog sain,
Y ffraeth ymadrodd oedd mor fad,—
  Gan rywrai hir y cofir rhai'n.
Ei hadwaen oedd ei charu hi,
  A'i hadwaen oedd ei charu 'n fwy;
Pob cam, a thwyll, a flugiol fri,
  Cas bethau 'i chalon oeddynt hwy.

Ei lle sy'n wag, a bwlch o'i hol,
  Un gwyneb hoffus eto'n llai;
Tra'r blodau'n dew ar fryn a dol,
  Dan wenau teg a maethlawn Mai.
Yn iach! gyfeilles, itti'n iach!
  Byth mwy ni chawn ymgomio'n gu,
Ac attat down 'mhen enyd fach,—
  Yn iach! er mwyn yr amser fu!

Adolygiad y Wasg.

CONFFIRMASIWN, *ei natur a'i breintiau, ynghyd â'r cymmwysderau a ofynir yn yr Ymgeiswyr, gan y Parch. D. R. Thomas,* S. Mary's, Cefn. Caerfyrddin: W. Spurrell, 1871.

Ryw fodd teimlwn yn fwy at ein rhyddid i ddinoethi anysgrythyroldeb ac afresymoliaeth athrawiaethau crefyddol yr Eglwys Sefydledig na'r rhai a berthynant i'r enwadau Anghydffurfiol. Am y diweddaf, llefaru wna pob enwad drosto ei hunan; ond am yr Eglwys Sefydledig, eglwys y Stâd ydyw, ac yna pan fyddo ei hoffeiriaid yn gosod o flaen y cyhoedd ryw athrawiaeth ddisail a ffol yn ein golwg ni, ystyriwn eu bod yn llefaru gydag awdurdod y Stâd, i ba un, fel unigoliad, yr ydym ni yn perthyn. Felly teimlwn fod genym hawl i roddi ein barn yn ddigryn ac yn onest ar y pethau a honnant, oblegid hwy yw yr unig oraclau duwinyddawl a gydnabyddir gan y Senedd a'r Awdurdodau gwladol. Yn awr at y llyfryn hwn.

"Conffirmasiwn sydd ordinhad Apostolig," tud. 3.

Dyma honiad mor wyllt a disail ag a wnaethpwyd erioed mewn cyssylltiad a chrefydd. Pwy awdurdod sydd gan yr Eglwys Sefydledig i alw hon yn ordinhad Apostolaidd? Nid yw y meddylddrych, chwaethach y gair, yn y Bibl. Er hyny dyweda yn ngwydd y byd, fod yr ordinhad wedi deilliaw oddiwrth yr Apostolion, ac y mae yn gosod pwys annhraethol ar gyflawniad y Seremoni! Ai cyfrif y mae ar anwybodaeth y werinos? Beth feddyliwn am ddynion dysgedig—dynion a ymfalchiant ym meddiant rhagorach breintiau na'r Anghydffurfwyr, er hyny yn gallu gosod i lawr, fel sylfaen i seremoni ar yr hon y gosodant gymmaint pwys, honiad nad yw yn wir. Pe gwnelai rhyw "Jacks pregethwrol," fel y dewisa rhai o honynt alw gweinidogion Anghydffurfiol, y fath honiad disail, ni fyddai ryfedd, os ydynt mor anwybodus ag y desgrifir hwy yn rhai o gyhoeddiadau yr Eglwys Sefydledig, ond, yn wir, gellir dysgwyl amgenach gwybodaeth o'r Ysgrythyrau oddiwrth Archesgobion, Esgobion, a Ficeriaid.

Eto, "Conffirmasiwn—Cadarnhad cyfammod bedydd," yn yr un tudalen. Nid oes sill ychwaith am y fath gyfammod yn y Bibl, mwy nac sydd am gonffirmasiwn. B'le yn y Bibl mae son am "famau a thadau bedydd" y rhai a addawant yn enw y plentyn beth na sydd ganddynt hawl i addaw, a pheth nad yw ond ychydig, os neb, o honynt yn gyflawni, nac yn meddwl cyflawni? Defod ydyw yn hollol o ddyfeisiad dynol, ac fel conffirmasiwn, o ba un y mae yn rhan, y mae yn niweidiol i grefydd, am eu bod yn arwain dynion i feddwl fod gwaith esgob yn gosod ei law ar eu penau yn rhoddi iddynt hawl i gael y nefoedd yn ol myned oddiyma. Mae tueddiad yn y seremoni i wneuthur dynion yn ddifater y'nghylch gwir grefydd, yr hon nid yw i'w chael heb lawer o ymdrech a hunanymwadiad.

Yn olaf, oblegid metha gofod i ni fyned trwy y llyfryn hwn i gyd, dywedir:—

"*Ffydd*—'Credu *holl* bynciau *ffydd Crist*,' yr unig Iachawdwr; nid rhyw rai o honynt yn unig, fel y gwna yr Iuddew a'r Undodwr," tud. 7.

Pwy sail sydd gan y Parch. D. R. Thomas i honni hyn am yr Undodwr? Yr un sail, o bosibl, ag sydd i ddyweyd fod Conffirmasiwn yn ordinhad Apostolaidd. Beiddiwn yr Awdwr i enwi un pwnc yn *ffydd Crist* a wrthodir gan yr Undodwr, am syniadau yr hwn, mae yn lled debyg y gwyddom ni lawer mwy nac a wyr yr awdwr. Mae yn wir fod yr Undodwr yn gwrthod pynciau "Iawnffyddiaeth," fel ei gelwir, megys, y Drindod, y Pechod Gwreiddiol, Poenau Tragywyddol, Etholedigaeth Ddiammodol, a'r cyffelyb. Os dyma y rheswm sydd gan y gwr dysgedig dros ei haeriad uchod, mae yn ofynol arno yn gyntaf ddangos mai pynciau *ffydd Crist* yw y rhai hyn, beth mai llawer wedi ymdrechu wneuthur o bryd i bryd, ond hyd yn hyn wedi methu, hyd yn nod i'w boddlonrwydd eu hunain, o leiaf, rai o honynt. Ni chwenychem weled y Parch. D. R. Thomas yn gafaelyd yn y gorchwyl. Mae yr Undodwr yn derbyn holl bynciau ffydd Crist. Nid oes neb yn eu credu yn gadarnach, nac yn fwy parod i'w hamddiffyn rhag llygreddau "Iawnffyddiaeth."

Gofyniadau ac Atebion.

ATEBION. *Gwel* Tud. 136.

Pump deg a saith yw Dafydd, was ufudd, pan daw'r hâf,
A thri deg saith yw Bili, medd Anni o Lantaf,
Mae'n saith ar ugain Twmi, os gwnes fy nghyfri'n iawn,
Os nad wyf yn llwyddianus rhowch i'm faddeuant llawn.

ANN EVAN HARRY, *Capelnantddu.*

Fe barhau'r gascen gwrw i'r gwr o Gastellnedd,
Rhyw ddeunaw (?) dydd mae'n debyg 'nol colli teg ei gwedd,
Ond gallai bod y llances ar brydiau'n yfed llai,
Er dangos yn gyhoeddus mai ar y gwr mae'r bai.

IOCCYN DDU, *Capelnantddu.*

Arall.

Oedran Thomas eleni yw 27, mae William yn 37, a Dafydd yn 57.

Gwna y gwr yfed y gascen pan fyddo'r wraig o gartref mewn 20 diwrnod. CARDI GLAN CERDIN, *Liverpool.*

Arall i'r ail Ofyniad.

Yfa y gwr y gascen pan na fyddo'r wraig yn ei gynorthwyo mewn 20 diwrnod. EVAN JENKINS, *Velindre, Talsarn.*

Ateb i Richard Rees.

Os ydych am gnwd da o geirch ar le bas, mynyddig, rhaid achlesu yn dda gydag ychydig iawn o galch. Yn y fath lefydd mae'r calch yn hir cyn dadansoddi, am hyny mae yn rhwym o losgi, yn enwedig ceirch, llafuryn sydd yn gofyn gyda'r lleiaf o hono.

GOFYNIADAU.

Trefnwch y naw rhif yn y fath fodd ag y byddo eu swm yn gwneyd 100.

Beth yw y rhif leiaf, yr hwn, os y rhenir â 17 a adael 7 yn weddill, ond os y rhenir â 26 a adael 13 yn weddill?

GARDDWRIAETH Y BWTHYN.

43. Cenin Santaidd *(Holy Leeks)*, neu fe allai mai Cenin Ceuon *(Hollow Leeks)* oedd yr enw cyntefig. Gellid meddwl fod perthynas agos rhwng y rhai'n a'r *Shallots.* Gofynant gyffelyb driniaeth.

Cyngor fy nain oedd planu yr *Holy Leek* ar y dydd byraf, a'i thynu ar y dydd hwyaf; os yw hyny yn gywir, addfeda yn gynharach na'r *Shallot.*

41. Wynwyn, neu Wniwn *(Onions)*. Yr oedd y rhai hyn yn un o'r pethau ar ol pa rai yr hiraethai yr Israeliaid wedi eu dyfodiad o'r Aipht. Dywedir fod wynwyn a garlleg yr Aipht yn rhagori.

Y mae amrywiaeth mawr o enwau yma eto, megys, "*Sutton's improved Reading*," "*White Spanish*," "*Brown Spanish*," "*Deptford*," "*New Giant Madeira*," "*White Lisbon*," "*Blood Red*," "*James's Long Keeping*," "*Tripoli*," &c. Y mae y tri math cyntaf a enwais yn rhai da. Y "*Long Keeping*," fel yr arwydda yr enw, yn dda i'w cadw erbyn y gwanwyn. Ceir cnwd da o'r "*Tripoli*," ond nid y'nt cystal i'w cadw dros y gauaf.

Tir gweddol gryf sydd oreu atynt. Triniwch y tir a cwrteithiwch yn dda yn yr hydref, a chodwch ef yn rynau. Y tro cyntaf y caffoch y pridd yn dymherus, o ganol Chwefror i ganol Mawrth, gwastadhewch a fforchiwch y tir. Tynwch ynddo rychiau bychain, modfedd o ddyfnder, â choes y rhaca, neu, yr hyn sydd well, ag offeryn pwrpasol, ar lun pen rhaca, a'i ddannedd y pellder priodol oddiwrth eu gilydd—ddim llai na phedair, na mwy nag wyth modfedd. Dyferwch yr hadau mor gysson ag y galloch i'r rhychiau hyn. Er mwyn i chwi allu gweled yr hadau yn well, rhag hau yn rhy dew, cymysgwch hwy ag ychydig lwch priddgalch, calch, neu beilliaid. Wedi hau, gwastadhewch y wyneb â'r rhaca, a churwch yn fanwl â chefn y bâl neu y rhaw.

Edrychwch rhif 33, lle y cewch gynllun arall ar hau wynwyn, a dyma i chwi drydydd, at gael wynwyn mawrion llydain.

42. Triniwch a brashewch y tir, fel y cyfarwyddwyd eisioes, ac yna sathrwch y gwyneb yn fanwl, nes byddo yn galed. Hauwch yr hadau ar yr arwynebedd caled hyn, ac yna gogrynwch drostynt haenen o dail pydredig da.

Dywedir y ceidw yr haenen fas hon y wynwyn rhag rhedeg yn rhai hirion a dyfnion.

43. Haua rhai hwynt yn dyrau, bump neu chwech y'nghyd, a phob twr rhyw ddeg neu ddeuddeg modfedd oddiwrth y llall. Bydd iddynt felly, pan ddelont i fyny, wthio eu gilydd ar led, fel y gwna cywion yr adar yn y nyth, a byddant yn sicr o beidio rhedeg yn bigfeinion. Dywed Cobbett y byddir felly yn sicr o gael wynwyn crynion, ond nid rhai mawrion.

44, Gwelais gnwd da o'r "*Tripoli*" wrth eu hau yn mis Medi, a'u trawsblanu yn gynhar yn y gwanwyn, gan adael rhai o honynt yn yr hâd-wely.

45. Dywedai un William Taylor, yn y *Gardener's Weekly Magazine*, ei fod ef yn hau wynwyn yn lled dew yn mis Mai, fod eu crwnwreiddiau tua maintioli pys erbyn diwedd Awst. Coder a chadwer yn sych dros y gauaf; ac o ganol i ddiwedd y mis Chwefror canlynol, planer hwy yn rhesau, wyth modfedd o res i rhes, a chwech modfedd rhwng y planhigion yn y rhesau. Dyweda Mr. Taylor ei fod ef trwy y driniaeth hon yn cael o 14 wns i un pwys, neu ychwaneg, yr un. Gwelais gadw y rhai manaf o'r prif gnwd at eu planu felly, ond byddai llawer o honynt yn rhedeg i hadu.

47. Os cewch ar ymddangosiad eich egin wynwyn, eu bod yn rhy dew, teneuwch i ddim llai na phedair modfedd oddiwrth eu gilydd, a gofalwch ddefnyddio y chwyngaib i ddifa y chwyn, ac i ysgafnhau y pridd rhwng y rhesi. Arfera rhai, wedi i'r gwrysg, neu y dail ddechreu blaengrino, eu gwasgu yn esmwyth, nes y lledorweddont. Gan dybied fod hyny yn hwylysu ymehangiad y wynwyn. Pan wywo y dail, tynwch y gwreiddiau o'r ddaear, a gadewch ar y wyneb am ddiwrnod neu ddau o dywydd sych. Yna cylymwch y rhai mwyaf yn rhesau ar rhaffau o wellt a chrogwch mewn lle sych a thywyll, at wasanaeth y teulu yn y gauaf, a chyffeithiwch y rhai mân os mynwch.

47. At ddifa y cynron, &c., sydd yn difa wynwyn ieuainge, dyfrhewch â dwfr calch, chwech neu wyth pwys o galch heb ei lacio, i ddeugain neu haner can' galwyn o ddwfr. Gadawer iddo loewi cyn ei ddefnyddio.

Y Senedd.

Cyfnod bythgofiadwy yn hanes Cymru fydd etholiad cyffredinol 1868. Dihunwyd yr adeg hono lawer cydwybod oedd wedi hir ac erioed gysgu; aml amaethwr, wedi ei fagu a byw heb erioed agor ei lygaid ar ei hawliau fel deilad gwlad rydd, a ddeffrowyd o'i drwm-gwsg; a thaflwyd i gannoedd oleuni newydd ar werth Cydwybod a Rheswm; llythyren farw oeddynt cyn hyn, ond daethant trwy appeliadau ernest ac egniol yn yspryd byw. Diolchwn am hyn, y mae yn ddiau yn gam y'mlaen, ond pan yr ystyriom yn ddifrifol nad yw dosbarth lluosog o honom eto ond braidd cymeryd dyddordeb yn hyd yn nod y drefn lywodraethol wladol yr ydym yn byw dani, a deddfau yr hon y dysgwylir i ni ufuddhau, y mae ein anallu neu yn hytrach ein difaterwch, o herwydd yr ydym oll yn orlawn o alluoedd, ond eu defnyddio a'u dwyn i weithrediad, i ddyrchafu ein meddyliau at ddim mwy sylweddol a dyrchafedig yn resynol. Y mae llawer o honom yn treulio allan ein blynyddau heb erioed brofi beth yw porthi ein meddyliau ag unrhyw syniadau uwchlaw sothach clecyddol a ffol; y mae ein holl hapusrwydd yn gynnwysedig mewn trin materion ein gilydd; eistedd, mewn barn, cyfiawn, wrth gwrs, ar weithredoedd ac ymddygiadau ein gilydd. Y mae yn ganmoladwy iawn mewn dyn i gymeryd dyddordeb yn ei gyfaill a'i gyd-ddyn, ond pwnc gwahanol hollol ydyw hwn oddiwrth ein harferiad a'n tuedd i ymyraeth yn yr hyn nad yw yn perthyn i ni, a chamfarnu, oddiar ddybenion maleisus, ein cyd-ddyn. O ddynoliaeth! pa cyhyd yr ymbleseri mewn parchu ac addoli y gwag a niweidiol allanolion hyn, yn lle ymddyrchafu uwchlaw iddynt at ryw beth mwy sylweddol a llesaol? Ond i ddych-

welyd o'n gwyrad. Dangosodd Cymru yn 1868 yspryd o ddewrder ac aberth teilwng o'i henw; dangosodd i'r wlad fod yma eto breswylwyr yn foddlon aberthu bywioliaethau cysurus er mwyn egwyddor, a naturiol ddysgwylid y buasai i Weinyddiaeth yn cael ei chefnogi gan cymmaint aberth ac hunan-ymwadiad weithio yn egniol a chydwybodol mewn cydsyniad a'r egwyddorion a osodant awenau y Llywodraeth yn eu dwylaw. Y mae yr eisteddiad presenol bron trosodd, a dylai y gweddill fod yn ffrwyth hau a llafur hyd yn hyn, ond beth sydd genym i ysguboria cleni? Bygythia Mr. Gladstone, mae'n wir, gadw eu blant yn yr ysgol nes pasio y *Ballot* a Mesur y Fyddin, gymmaint o hono ag sydd ar gael, o herwydd y mae wedi ei dalfyru o lawer o'i adraniadau cyntefig, ond beth yw hyn mewn cydmariaeth i'r hyn ddylem a theilyngwn gael? Mae digon o siarad wedi bod ar Fesur y Fyddin i basio haner dwsin o fesurau; mae dosbarth milwrol y Ty wedi siarad a bloeddio ganwaith, os unwaith, yr un rhesymau yn erbyn prynu a gwerthu swyddi, ond pe buasai mwyafrif Mr. Gladstone wedi cyd-dynu a gweithio, gallasent yn hawdd ddystewi y dyrnaid yna o siaradwyr. Eisteddiad pur ddiffrwyth, ofnaf, fydd y presenol ar y cyfan, ond os cawn y *Ballot*, gwna hyn yn unig ei argraff arno. WAETH PWY.

Bu Farw.

DAVID DAVIES, Lledrwr, Llandilo, 5 Mehefin, yn 45 oed, ar ol byr gystudd, o'r *gangrene* dan brif fawd y droed chwith. Claddwyd ef dydd Mercher canlynol yn Alltyblaca. Cyn cychwyn, darllenodd a gweddiodd y Parch. E. L. Jones, Curad Llandilo, a chanwyd un o Salmau Iolo. Yn Alltyblaca, pregethodd y Parch. J. Davies, gweinidog y gynulleidfa, a chymerodd y Parch. D. Evans, o Gaeronen, hefyd ran yn y gwasanaeth. Ar Sul y 18, traddododd Professor Evans, o Gaerfyrddin, bregeth angladdol i'r trengedig yn yr Onenfawr, lle yr oedd yn aelod parchus a defnyddiol. Dangosodd ei gymydogion yn Llandilo, a'i gydnabyddion yn Sir Aberteifi, barch mawr iddo trwy hebrwng yr *hearse* wrth ymadael o'r dref a'i gyfarfod oddeutu Rhydcymerau a Llanybyther. Collasom ddyn geirwir, gonest, diniwed, a chymwynasgar. Anhawdd fyddai cwrdd a'i well yn un man. Caiff cynulleidfa fechan yr Onenfawr golled ar ei ol. Pwy bynag fyddai yn absenol o'r gwasanaeth yr oedd Mr. Davies yn ei le, p'un ai teg ai garw fyddai yr hin. Bu yn America rai blynyddau, ac yn gweithio yn amryw lefydd yn nhalaeth Ohio. Yr oedd ganddo feddwl uchel am yr Americaniaid fel dynion twymgalon a chymwynasgar. Yr oedd yn Undodwr trwyadl o ran ei olygiadau crefyddol, ac o ran *politics* yn ryddfrydwr digyfaddawd—neb yn fwy selog dros ffynniant a dedwyddwch ei wlad. Fel masnachwr hefyd nid oedd neb yn fwy cyfiawn a didwyll. Nis gall yr ystyriaethau hyn lai na gweini cysur mawr i'w weddw barchus sydd yn galaru ar ei ol. Rhodder nerth iddi dan y brofedigaeth annisgwyliadwy ag y gwelodd y Tad nefol fod yn dda i ddwyn arni, a bydded iddi hi a ninau obeithio cael ail-uno a'i gyfeillach mewn bywyd perffeithiach na'r un presenol. Mae y gobaith hwn genym i'n dyddanu ar ymadawiad y cyfiawn.

MARY HOWELLS, gwraig Thomas Howells, Saer, Ystrad, Ebrill 27, yn 79 oed. Gadawodd briod, tri mab a merch, wyrion, llawer o berthynasau a chyfeillion i alaru ar ei hol. Yr oedd yn un o'r aelodau henaf yn eglwys Rhydygwin. Bu ei rhodiad trwy ei hoes yn wir deilwng o'i phroffes. Bydded i'w phlant a'i hwyrion ddilyn ei rhinweddau, a bydded i'w phriod oedranus, yr hwn nis gall lai na theimlo yn ddwys ar ei hol, beidio galaru heb obaith, er iddo gael ei ymddifadu o ran fawr o'i gysur am weddill ei oes. Buont yn briod am 55 o flynyddau ac yn byw yn hynod gysurus. Ar yr ail o Fai, daeth lliaws o bobl i'w hangladd er fod y gladdfa mor agos. Cyn cychwyn o'r ty, pregethodd y Parch. W. Rees, Rhydygwin, oddiwrth 1 Cor. iii. 10, 11. Yna cludwyd hi i fynwent Ystrad i huno gyda'i theidiau.

ARGRAFFWYD GAN C. & D. JONES, LLYFRWERTHWYR, CAERFYRDDIN.